

Canllawiau diwygiedig drafft ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Ywain Myfyr

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

e-bost / rhif ffôn: ucac@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio orau fel ymatebydd.

<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol*	<input type="checkbox"/>	Pennaeth	<input type="checkbox"/>	Llywodraethwr Ysgol
<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	
<input checked="" type="checkbox"/>	Undeb	<input type="checkbox"/>	Aelod o staff ysgol	<input type="checkbox"/>	Arall

Nodwch:

*os gwnaethoch ddewis ALI, nodwch yn rhinwedd pa swydd, h.y., swyddog dynodedig awdurdod lleol, adnoddau dynol, swyddog cefnogi llywodraethwyr, etc.

Cwestiwn 1 – A yw Adran 8 newydd y ddogfen ganllawiau diwygiedig drafft yn adlewyrchu'n glir y gofynion a osodir allan yn rheoliadau staffio 2014 a'r canllawiau statudol ynghylch ymdrin â honiadau o gam-drin?

Ydy Nac ydy Ddim yn gwybod

Sylwadau:

Credwn fod Adran 8 o'r ddogfen Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol yn adlewyrchu'r hyn a osodir allan yn y rheoliadau staffio 2014. Mae'n hollol angenrheidiol bod gweithdrefnau clir a hawdd eu dilyn yn eu lle os bydd ysgolion yn cael eu gorfodi i lawr y llwybr yma. Nid yw cymryd y camau yma'n hawdd ar unrhyw ysgol ond pan gyfyd achos mae arweiniad o'r camau sydd rhaid eu cymeryd yn hanfodol i osgoi camgymeriadau a allai lesteirio'r broses yn ogystal ag achosi loes di-angen

Rydym yn croesawu'r cyfarwyddyd i '*gymhwyso'r gweithdrefnau ar gyfer delio â honiadau gyda synnwyr cyffredin a barn*' (Par 8.4) a'r pwyslais a roddir ar rannu gwybodaeth fel nad yw honiadau sy'n '*amlwg yn ffals neu yn ddi-sail*' yn arwain at gamau pellach. (Par 8.6). Yn yr un modd, mae'r cyfarwyddyd

ynghylch hysbysu'r aelod o staff am yr honiad (Par. 8.7) yn bwysig. O'n profiad ni mae diffyg cyfathrebu rhwng partïon - y pennaeth, swyddogion adnoddau dynol, yr heddlu a gwasanathau cymdeithasol - yn arwain at adael staff yn y niwl ynghylch natur yr honiadau yn eu herbyn sy'n creu pryder di-angen yn aml.

Cwestiwn 2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau am unrhyw benodau eraill a'r modd y cafodd yr wybodaeth ei hadolygu, ei mireinio a'i hail-drefnu? Os felly, a wnewch chi roi eich sylwadau isod, gan wneud yn glir â pha bennod ac adran o'r canllawiau y mae a wnelo eich sylwadau.

Sylwadau:

Mae'r ddogfen yn ddigon clir ar y cyfan ac yn rhoi gweithdrefnau ar gyfer proses ddigon anodd yn eu lle. Credwn fod peth amwysedd yn bodoli yn y rhestrau enghreifftiol o gam ymddwyn difrifol a llai difrifol gan fodhai datganiadau yn agored i gael eu dehongli mewn sawl ffordd.

Cwestiwn 3 – A yw'r polisi enghreifftiol yn adlewyrchu'n gywir gynnwys y canllawiau ac a oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y polisi enghreifftiol?

Sylwadau:

Credwn fod y polisi enghreifftiol yn mynd i fod o ddefnydd mawr i ysgolion ac mae ei gynnwys yn adlewyrchu cynnwys y canllawiau. Mae'n bolisi clir a phendant sy'n gosod i lawr y drefn i'w dilyn mewn achos o ddisgyblu a diswyddo.

Pan gyfyd achosion o'r fath mae'n hanfodol cael gweithdrefnau clir, teg a chyson fel bod cyn lleied o anghytundeb â phosib yn digwydd.

Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt:

Adran 6

Croesawn y pwyslais yn yr adran hon ar y defnydd o drafodaethau anffurfiol gyda'r pennaeth a/neu'r rheolwr llinell. Nid ydym o'r farn bod penaethiaid yn ddigon hyddyg a hyderus i wneud defnydd llawn o'r opsiwn yma fel 'proses reoli' yn hytrach na disgyblu. Yn sicr, nid yw penaethiaid wedi derbyn digon o hyfforddiant uniongyrchol mewn delio â materion disgyblu a diswyddo.

Atodiad H

Rydym yn croesawu'r gofyn newydd o ran y defnydd o'r Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol. Mae tuedd wedi bod yn y gorffennol i ysgolion gynnal ymchwiliad annibynnol yn gynamserol a bydd y gofyn newydd hwn yn fodd i sicrhau bod defnydd mwy priodol o ymchwiliadau annibynnol a fydd yn lleihau achosi pryder diangen i athrawon a chamddefnydd o adnoddau cyhoeddus.

Atodiad J/Cyfrinachedd

Mae lle i gryfhau y pwyslais ar gyfrinachedd yn gyffredinol yn y Canllawiau a byddem yn dymuno gweld sylw yn y Llythyrau Enghreifftiol- yn arbennig y rhai sy'n gwahodd tystion i gyfarfodydd - at bwysigrwydd cadw'r materion dan sylw yn gwbl gyfrinachol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debyg o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: